



Arolwg Hynt Graddedigion yn agor yn fuan!

Annwyl [graduate],

Ymhen ychydig dros wythnos byddwn yn anfon gwahoddiad atoch i gymryd rhan yn yr **arolwg Hynt Graddedigion**. Mae'r darn hanfodol hwn o ymchwil yn bodoli i wella profiad myfyrwyr y dyfodol ar yr un daith ag yr ydych chi newydd fod arni.

Rydym yn gofyn i'r holl raddedigion rannu eu safbwyntiau, 15 mis ar ôl gorffen eu cwrs. Fel un o raddedigion diweddar [provider name], rydym am glywed oddi wrthy.

Pam mae hyn yn bwysig gallech ei ofyn? **Nid arolwg ymchwil i'r farchnad yw hwn** – mae'n ofynnol i'ch darparwr AU weithio gyda ni i alluogi'r holl raddedigion i leisio'u barn, gan ddefnyddio'r arolwg Hynt Graddedigion i rannu safbwyntiau. Bydd eich ymatebion yn datgelu'r darlun ehangach o'r llwybrau gyrfa a'r cyfleoedd a gymerwyd gan raddedigion diweddar, i ysgogi arloesi ym maes addysg uwch.

Pe byddech yn defnyddio tablau cynghrair, y Guardian University Guide neu Prospects Career Guides i'ch helpu i ddewis ble a beth i'w astudio yna byddai data'r arolwg Hynt Graddedigion wedi eich helpu! Rhowch derfyn ar y cylch cyfan a chwblhewch yr arolwg pan fyddwch yn derbyn eich dolen – byddwch yn grymuso myfyrwyr yfory.

Mae cymryd rhan yn hawdd ond yn bwerus

Mae angen i chi glicio ar y ddolen ddiogel ar gyfer y gwahoddiad i'r arolwg yn unig a fydd yn cael ei e-bostio atoch gan y tîm Hynt Graddedigion yn []. Mae'r

ddolen hon yn unigryw i chi. Ychwanegwch ni at eich rhestr anfonwyr diogel i sicrhau eich bod yn derbyn y gwahoddiad pwysig hwn.

Pan fyddwch yn derbyn eich e-bost, cwblhewch yr arolwg ar-lein cyn gynted â phosibl - **dim ond 10 munud y mae'n ei gymryd**. Fel hyn ni fydd angen i ni anfon unrhyw nodiadau atgoffa atoch na chysylltu â chi trwy neges destun a/neu alwad ffon.

Yn y cyfamser, beth am ddysgu rhagor am yr arolwg Hynt Graddedigion yn cy.graduateoutcomes.ac.uk ac isod neu edrychwch ar ein postiadau ar gyfryngau cymdeithasol.

Dymuniadau gorau,

Alison Berry

Director of HESA Statutory Operations

Manylion pwysig am yr Arolwg Hynt Graddedigion:

Mae'r arolwg yn cael ei gynnal gan y Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ("HESA"), rhan o Jisc, i ddeall canlyniadau addysg uwch. Mae cyrff cyllido a rheoleiddio addysg uwch y DU yn comisiynu'r arolwg Hynt i Raddedigion ac yn ei gwneud yn ofynnol i HESA a darparwyr addysg uwch gydweithio i'w gyflawni. **Darganfod sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio.**

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol.

Mae cyrff cyllido a rheoleiddio'r DU yn ei gwneud yn ofynnol i HESA (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch), rhan o Jisc, a darparwyr addysg uwch weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r arolwg Hynt Graddedigion. Fel rhan o hyn, [provider name] wedi darparu'r manylion cyswllt sydd ganddynt i chi at yr unig ddiben o gynnal yr arolwg.

Sicrhewch fod HESA yn cymryd diogelwch gwybodaeth o ddifrif a'i bod wedi ymrwymo i gadw'r data'n ddiogel. Mae ein gwybodaeth preifatrwydd cyhoeddedig yn esbonio mwy am sut y bydd eich manylion cyswllt a'ch ymatebion i'r arolwg yn cael eu defnyddio.



HESA is part of Jisc. Jisc is a registered charity (number 1149740) and a company limited by guarantee which is registered in England under company number 05747339, VAT number GB 197 0632 86. Jisc's registered office is: 4 Portwall Lane, Bristol, BS1 6NB. T 020 3697 5800.

[Dad-danysgrifio](#)